Doedwn bellach am y Cowirdannau, y Tagiadau, y Tynniadau, y Cyfylltiadau; y rhai sy 'n dangos lleisiau gwahanedig, bob un bhonynt yn ymrafaelu.

Rhaid yw son bellach am y Coweiriau, y rhai sy 'n dangos lleisiau gwahanedig yn ymrafaelu, ag sydd a'u perthynas yn wahan-ledig oddiwrth eu gilydd.

Pum Cowair y sydd yn safedig ag yn warantedig; ag o'r rhai hynny gellir gwneuthur a fynner o gweiriau.

Un Bys i Grythor a geidw dri chowair, nid amgen is gower, Cras gower a lleddf gower; a hyn y mae'r Herfys yn oi gadw.

Y Manegfys sydd yn cadw y Gogower a'r Bragod Gower. ag wele dyma 'r pum Cowair prifedig; neu Brinsipal.

Bawd i Grythor sydd yn gwasnaethu ag yn ymrafaelu ymhob cower ynghyfer y pedwar bys arall. Y Graenfys a'r bys bach sydd yn gwasnaethu ag yn ymrafaelu ymhob Cowair yn eu rhan eu hunain.

Pob Bys sydd yn cadw arno y Bragod gowair, o'r achos y mae yn cael oi Enw. oblegid fod pêth o bob Cowair yn oi fysg, ag o herwydd hynny y gelwir ef y bragod gowair.

Pedwar rhyw dannau lleddfon sydd.
Sef. Tannau lleddfon y Bragod gowair.
Tannau lleddfon y Gogowair.
Tannau lleddfon is gower
Tannau lleddfon y lleddf gowair, o'r hwn y mae yn cael oi Enw ——

Oblegid yr hwn a wyppo 'r gyfrinwydd heb ddysg Celfyddyd, ni bydd ef athro namyn tebygwr cerdd ——

gofyniad